Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Rhosybol
# Rhosybol
# Amlwch
# LL68 9AP

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Rhosybol

Mae Ysgol Gymuned Rhosybol ym mhentref Rhosybol tua dwy filltir o Amlwch yn Sir Fôn, ac yn gwasanaethu pentref a'r ardal weldig o'i hamgylch. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae 67 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin, rhan-amser.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 19%, sydd yr un fath â'r ganran genedlaethol. Mae tua 79% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol (21%). Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2015, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn, a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. Mae'r staff yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm, a chânt gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn ac yn cyflawni'n dda. Maent yn perfformio ar ddeilliannau a lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl yn ardderchog. Mae'r disgyblion yn hynod gwrtais, yn ystyriol ac yn uniaethu'n hynod effeithiol â'i gilydd. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol o waith yr ysgol. Mae effaith safon uchel yr addysgu yn amlygu ei hun yn glir yng nghyflawniadau a lles rhagorol y disgyblion. Mae'r gweithgareddau dysgu hynod ddiddorol yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu, ac yn nodwedd ardderchog. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn dda, yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus, ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn llwyddiannus iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol a chyson i alluogi disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddatblygu eu medrau rhyngweithio a chydweithio ar lein ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag addysg greadigol yng nghyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar y cwricwlwm newydd i Gymru, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni'n dda ac yn gweithio'n annibynnol. Maent yn perfformio ar ddeilliannau a lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn gadarn iawn. Maent yn gwrando'n astud ac aeddfed iawn ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn hyderus iawn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn aeddfed gan ddefnyddio ystod eang o eirfa goeth mewn amrywiol sefyllfaoedd o oed cynnar. Maent yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud mewn tasgau yn glir, er enghraifft wrth egluro sut maent yn cydbwyso ei gilydd wrth ddefnyddio'r si-so. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu mewn modd hynod aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg gan fynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn effeithiol a chlir mewn brawddegau estynedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn trosglwyddo'n hynod effeithiol o un iaith i'r llall yn gwbl ddidrafferth.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn rhugl a chywir. Mae llawer yn dechrau darllen gyda mynegiant ac ystyr priodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith ac yn ymateb yn dda i lyfrau ffuglen a ffeithiol. Gwnânt ddefnydd da iawn o'u medrau i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddod o hyd i ffeithiau am drychineb Y Royal Charter a hanes Hedd Wyn.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ffordd y mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n annibynnol i safon uchel iawn at wahanol bwrpasau ac mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn ysgrifennu darnau diddorol yn gynyddol gywir fel cyfarwyddiadau ar sut i wneud cibab iach a deialog yn dilyn sgwrs â swyddogion y frigâd dan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn ysgrifennu brawddegau cymhleth, yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol ac yn dangos gafael gadarn ar ffurf a dilyniant, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn effeithiol, gan nodi eu rhesymau yn annibynnol ar faterion sy'n bwysig iddynt, er enghraifft wrth drafod a ddylid buddsoddi mwy o arian yn y parciau cenedlaethol. Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn cyflwyno'u gwaith yn daclus iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dangos cynnydd arbennig mewn medrau mathemategol. Maent yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gyfrifo cyfansymiau o arian sydd eu hangen i brynu bara. Mae'r rhan fwyaf yn casglu gwybodaeth ar ffurf tabl yn briodol ac yn cyflwyno'r data ar ffurf graff yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan bron

pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau a ffeithiau mathemategol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu strategaethau rhifiadol perthnasol i ddatrys problemau ac yn cyflwyno'u canlyniadau yn systematig. Mae disgyblion mwy abl yn cwblhau tasgau heriol iawn o safon uchel, er enghraifft i fesur arwynebedd siapiau cymhleth neu gyfrifo cylchedd Pi. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn fedrus iawn ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, maent yn defnyddio meddalwedd yn bwrpasol i greu pamffled diddorol am fynydd Parys. Gall llawer ddefnyddio codio i ddatrys problemau rhif a cod 'QR' i arddangos eu gwaith creadigol yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio meddalwedd yn fedrus i gyflwyno'u gwaith. Maent yn trin data yn effeithiol i greu graffiau amrywiol, gyda'r disgyblion hŷn yn casglu data ar ffurf taenlen yn effeithiol. Gall y rhan fwyaf drafod pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we, ac maent yn dechrau dangos dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision defnyddio adnoddau digidol. O ystyried bod medrau TGCh disgyblion mor ddatblygedig, nid ydynt yn eu defnyddio'n ddigon cyson yn rhyngweithiol nac yn cyfathrebu'n ddigon hyderus ar lein.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Maent bron pob un disgybl yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol. Mae cyfraddau uchel o bresenoldeb yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn hoffi bod yno. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol a pharchus iawn ac yn arddangos lefelau ardderchog o hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac ar adegau eraill o amgylch yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed iawn am eu dysgu eu hunain, gan ddewis tasgau â lefel briodol o her yn synhwyrol allan o ystod a ddarparwyd gan yr athrawon ar gyfer y dosbarth. Mae hyn yn gryfder amlwg ac yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd a dyfalbarhad y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hyder ac aeddfedrwydd uchel wrth weithio.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Maent yn ymwybodol o beryglon ymchwilio ar y we, pwysigrwydd cymryd gofal ar y ffordd, a'r angen i wneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed. Maent yn egnïol a phob amser yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol i hybu eu ffitrwydd.

Mae'r disgyblion yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion yn arbennig o dda. Maent yn hynod gwrtais, yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda iawn â'i gilydd. Mae hyn yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfeillion, er enghraifft wrth eu helpu yn ystod amser cinio ac ar adegau eraill fel amser chwarae.

Mae llais y disgybl yn elfen gref o waith yr ysgol ac mae gwaith y cyngor yn dylanwadu'n ardderchog ar ei bywyd bob dydd. Mae aelodau'r cyngor wedi cynhyrchu llyfryn 'Paid â Phoeni' sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Maent yn cyfarfod gyda'r llywodraethwyr yn rheolaidd ac yn mynegi eu barn yn glir i wella lles a diogelwch yr holl ddisgyblion yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ysgol. Maent wedi ymgyrchu'n llwyddiannus ac wedi derbyn addewid i gael croesfan sebra y tu allan i'r ysgol i hwyluso'u diogelwch wrth gyrraedd

ac wrth fynd adref. Mae gan y cyngor eco syniadau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eu cyfoedion o gynaliadwyedd trwy, er enghraifft, fonitro a chadw cofnod o'r defnydd o ynni a ddefnyddir gan yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu eu dealltwriaeth o faterion cynaliadwy yn dda iawn.

Mae ymdrech y disgyblion i gasglu arian at elusennau a chodi ymwybyddiaeth cymuned yr ysgol am achosion ymhell tu hwnt i'r ardal yn cyfleu eu hymwybyddiaeth aeddfed a chanmoladwy o anghenion eraill. Yn ddiweddar, maent wedi arwain ymgyrch ar draws Ynys Môn i gasglu dillad i ffoaduriaid o wlad Syria. Mae casglu dillad i ddioddefwyr Tŵr Grenfell yn enghraifft arall o'r gwaith arbennig hwn. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion gweithgar, sy'n barod i arwain elfennau pwysig o fywyd o fewn a thu hwnt i'w cymuned leol yn y dyfodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae safonau addysgu uchel yn amlwg iawn yn y cyflawniadau a lles rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu yn nodwedd ardderchog. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus sy'n seiliedig ar syniadau'r disgyblion eu hunain. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn dda, yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith. Mae'r prosiect ysgogol sy'n datblygu egwyddorion addysg greadigol, y mae'r ysgol yn rhan ohono, yn enghraifft nodedig o hyn. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd effeithiol a diddorol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau TGCh mewn amrywiol gyd-destunau. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau rhyngweithio a chydweithio ar lein yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y rhan fwyaf o wersi lle mae'r addysgu yn arbennig o effeithiol, mae cyflymder gwersi yn nodwedd gref ac mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau i ddatblygu medrau'r disgyblion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn ymroi'n llwyr i'r tasgau â chymhelliant, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, ac yn gweithio'n annibynnol. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth, gyda pherthynas weithgar yn bodoli. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar cyfoethog.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gydgynllunio gyda'r athrawon, i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn meithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon drwy annog disgyblion i gymhwyso'u medrau

mewn tasgau heriol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae egwyddorion 'Dyfodol Llwyddiannus' yn barod ar waith yng nghyfnod allweddol 2, adarperir tasgau a heriau o safon uchel iawn i'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig o effeithiol i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Un enghraifft nodedig sy'n cyfleu'r ddarpariaeth effeithiol hon yw'r dasg a roddwyd i ddisgyblion hŷn lunio'r 'byd delfrydol'.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous ac yn llawn dychymyg. Atgyfnerthir y profiadau yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau, a mynychu ymweliadau hanesyddol fel amgueddfa lechi Llanberis a hen fwthyn Swtan ym Mhorth Swtan. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal leol ac yn cynyddu eu diddordeb mewn traddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal leol a Chymru gyfan, yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion berfformio yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau creadigol y disgyblion yn dda iawn. Maent yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a cherddorol, sydd wedi arwain at lwyddiant ardderchog y disgyblion mewn eisteddfodau a chystadlaethau eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd ardderchog y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir gan staff yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn ac mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Mae staff yn trefnu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl lle y cânt werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol, moesol a materion sy'n digwydd yn y byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd buddiol iawn i ddisgyblion leisio'u barn trwy gyfrwng amrywiol gynghorau. Ystyrir eu barn o ddifrif gan arweinwyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hyder ac yn meithrin ynddynt synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd iawn drwy gyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd cwricwlaidd a lles. Mae hyn yn galluogi rhieni i gefnogi eu plant yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles ei disgyblion ac mae'r staff yn eu diweddaru'n gyson. Maent yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn hynod effeithiol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion ac i ddarparu ymyraethau defnyddiol iawn ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn llwyddiannus iawn ac yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog dros amser.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o ddeilliannau asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar, a darperir rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Mae cymorthyddion yn gweithio'n effeithiol iawn o dan arweiniad yr athrawon i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cadarn a chyson. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw ymrwymiad y staff i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd fel nad oes angen iddynt barhau i dderbyn ymyraethau am gyfnodau estynedig. Yn yr un modd, mae gan yr ysgol raglen gefnogi hynod effeithiol ar gyfer disgyblion bregus. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad da iawn at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac mae ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn, a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. Mae'r pennaeth yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gan bawb ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a disgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad a lles disgyblion.

Nodwedd arbennig o arweinyddiaeth yr ysgol yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol ymhlith y staff. Mae hyn yn rhan greiddiol o'i strategaeth ac yn fodd effeithiol i ddatblygu staff, hybu cydweithio llwyddiannus a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur yn bodoli rhwng yr holl staff. Maent yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gyfranogi yn y trefniadau rheoli perfformiad trylwyr, sy'n cynnwys targedau heriol ac addas. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys y modd effeithiol y mae'r ysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl ac yn eu hannog i ddewis her ar lefel briodol iddyn nhw eu hunain. Mae hyn wedi arwain yn benodol at safonau uchel mewn deilliannau a lefelau uwch na'r disgwyl.

Mae'r pennaeth a'r athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill yn rheolaidd ac yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag athrawon eraill ar agweddau fel y 'Cwricwlwm i Gymru' ac ar ddatblygu egwyddorion addysg greadigol. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad proffesiynol staff o fewn yr ysgol a thu hwnt. Caiff llwyddiant hyn ei adlewyrchu'n glir yn y ffordd gadarn y mae'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae trefn drylwyr yr ysgol o fonitro yn sicrhau eu bod yn wybodus am ei

pherfformiad. Mae eu harfer o ymweld â dosbarthiadau yn eu cynorthwyo i ddod i farn glir ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion ac yn eu galluogi i herio a chwestiynu staff am berfformiad yr ysgol.

Mae’r ysgol yn meddu ar weithdrefnau hunanarfarnu parhaus a thrylwyr, sy’n canolbwyntio’n glir ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn greiddiol i holl fywyd a gwaith yr ysgol ac yn hyrwyddo gweledigaeth ddidwyll i godi safonau a sicrhau lles da y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r weithdrefn yn galluogi’r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn effeithiol iawn. Mae’r gweithdrefnau hyn yn seiliedig ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol sy’n cynnwys barn y staff, llywodraethwyr a rhieni ar fywyd a threfniadau’r ysgol. Mae gan yr ysgol ymrwymiad cadarn i gynnwys cyfranogiad disgyblion yn ei holl benderfyniadau, sy’n cynnwys eu barn am gynnwys eu gwaith tymhorol ynghyd â gweithdrefnau cyffredinol ar waith yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae blaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol yn cysylltu’n glir â deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu, ac yn canolbwyntio’n glir ar godi safonau a lles y disgyblion a gwella’r ddarpariaeth. Mae gallu’r ysgol i gynllunio i sicrhau gwelliant yn ardderchog. Mae’r cynnydd mewn cyrhaeddiad disgyblion o’u man cychwyn yn dystiolaeth gadarn o hyn.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn. Fe welir cynnydd amlwg ym medrau darllen ac ysgrifennu’r disgyblion hyn. Mae gwariant wedi ei gysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro’n ofalus er mwyn sicrhau’r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2018